
# Gwneud cwch papur

**Deunyddiau:** siswrn neu gyllell heb fin - glud, tâp selo neu glipiau papur - beiros, pensiliau, marcwyr blaen ffelt ag inc parhaol.









**Cam 1** Dewiswch eich papur – gall fod yn unrhyw beth - hen amlenni, papur wedi'i ailgylchu, cylchgronau.

Torrwch allan siâp a maint cerdyn post.

**Cam 2** Plygwch y papur yn ei hanner a phinsiwch y canol i nodi'r pwynt canol.







Plygwch bob ochr hir i'r canol a gwnewch y plyg yn glir â'ch ewin.
Dyma ddwy ochr y cwch.

**Cam 3** Torrwch ar hyd pob un o'r llinellau - tua modfedd. Y fflapiau fydd dau ben y cwch.



**Dyma'ch cyfle i dynnu llun neu batrwm neu ysgrifen arno neu'i liwio.**



**Cam 4** Rhowch ychydig o lud ar ddiwedd pob fflap un ochr ar y tro.
Plygwch rownd y cefn a'i ludo.
Gwnewch yr un peth yn y pen arall.






## Dyma'ch cwch!

**Dyma ragor o syniadau**

Defnyddio papur patrymog

Rhoi hwylbren a hwyl

Ysgrifennu neges

Gwneud fflyd ohonynt!

**Rhowch y cwch yn y bath**

**Tynnwch lun a'i rannu**




## Mwynhewch!

Siân Hughes [www.sianhughes.net](http://www.sianhughes.net)